Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru – Atodiad

2021 – 2022

llyw.cymru

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel** | | |
| 1 | Sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd. | Mae Bwrdd Rhaglen Ysgol Feddygol Annibynnol Gogledd Cymru wedi'i sefydlu a bydd yn adeiladu ar waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Mae llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud gyda Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu'r ddarpariaeth i symud ymlaen drwy broses achredu angenrheidiol y Cyngor Meddygol Cyffredinol cyn gynted â phosibl. |
| 2 | Darparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig. | Cyhoeddwyd *ein rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros* yng Nghymru ar 26 Ebrill. Roedd y rhaglen yn gosod cyfres o dargedau ymestynnol ar gyfer byrddau iechyd. Mae cyllid o £170m yn ychwanegol y flwyddyn yn cefnogi'r cynllun.<br><br>Yn 2021-22 gwelwyd gostyngiad yng nghyfradd twf y cyfnodau aros hir (dros 36 wythnos) o'i gymharu â 2020-21. Cyfanswm y gweithgaredd cleifion mewnol ac achosion dydd yn 2021/22 oedd 246,146. Roedd hyn 95,638 (64%) yn uwch nag yn 2020/21. Roedd 2,876,571 o apwyntiadau cleifion allanol. Roedd hyn 836,071 (41%) yn uwch nag yn 2020/21, yn nes at y lefelau cyn y pandemig. Gostyngodd cyfnodau aros dros y targed o 8 wythnos ar gyfer profion diagnostig ym mis Mawrth 2022 yn ôl at lefel debyg i fis Mawrth 2021 ar ôl cynyddu yn ystod y flwyddyn. |
| 3 | Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. | Cyflwynwyd ffyrdd ychwanegol, ar-lein, o gael gafael ar gyngor meddygol a chyngor ar iechyd yn y gymuned, gan gynnwys gofal llygaid. Mae rhaglen genedlaethol i drawsnewid mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wedi cael ei hariannu ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r proffesiwn deintyddol i ddiwygio deintyddiaeth. Mae'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol cenedlaethol wedi cyflwyno ymrwymiad i helpu i sicrhau bod practisau meddygon teulu yn rhyddhau apwyntiadau drwy gydol y dydd. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth 111 dros y ffôn bellach ar gael ledled Cymru. |
| 4 | Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector at ei gilydd. | Mae'r Rhaglen Garlam i Ddatblygu Clystyrau wedi'i lansio i gryfhau clystyrau fel y dull i ddod â gwasanaethau iechyd a gofal lleol at ei gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n cyfateb i anghenion unigolion a chymunedau. Mae map ar gyfer cyflawni yn 2022/23 wedi cael ei anfon at Gadeiryddion y GIG, Arweinwyr awdurdodau lleol a Chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. |
| 5 | Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl. | Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau drwy flaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant yn y setliad tair blynedd ar gyfer y gyllideb, gan ddyrannu £100m ychwanegol hyd at 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys £50m yn ychwanegol yn 2022-23, gan gynnwys £20m i gefnogi gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl a gweithredu Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, yn 2022-23 yn unig, bydd y gyllideb iechyd meddwl sydd wedi'i neilltuo i fyrddau iechyd lleol yn fwy na £760m. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o adfer, datblygu a thrawsnewid gwasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), argyfwng / y tu allan i oriau a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Bydd cefnogaeth bellach ar gael hefyd ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta i unigolion o bob oed, cyswllt gofal sylfaenol a bydd gwasanaethau haen 0/1 yn cael eu datblygu ymhellach. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 6 | Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl. | Mae fframwaith NEST/NYTH wedi cael ei ddatblygu ac mae'n darparu fframwaith cynllunio i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu dull system gyfan o ddatblygu cymorth iechyd meddwl a llesiant. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael cais i ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl ac mae'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau hyn o fis Ebrill 2022 ymlaen a bydd yn parhau i gefnogi'r Byrddau i wneud hyn. Cafodd y fframwaith ei ymgorffori'n benodol yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gwerth £144.6m y flwyddyn i sicrhau y gallai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r adnodd trawsnewidiol hwn fel cyfrwng i gael adnoddau craidd ehangach er mwyn sefydlu modelau gofal cynaliadwy ac integredig ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae'r byrddau iechyd ar y trywydd iawn i sicrhau bod un pwynt cyswllt ar gael ar gyfer materion iechyd meddwl brys 24/7 yn nes ymlaen yn 2022/23. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu drwy 111, gan bwyso 2 ar gyfer iechyd meddwl a bydd ymarferydd iechyd meddwl yn darparu cymorth ar unwaith. Mae'r byrddau iechyd hefyd yn gwneud cynnydd o ran trawsnewid CAMHS drwy weithredu Un Pwynt Mynediad fel rhan o'r dull gweithredu ehangach 'dim drws anghywir'. |
| 7 | Cyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ledled Cymru. | Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc gan gynnwys £5m yn 2021-22 ar gyfer ymestyn y cynlluniau peilot 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ar gyfer CAMHS. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddi gwerthusiad terfynol o'r cynlluniau peilot. Mae'r byrddau iechyd lleol yn rhag-weld y bydd y gwasanaethau'n gwbl weithredol rhwng mis Mawrth a mis Medi 2022. Bydd bron i £16.5m yn cael ei fuddsoddi i ddatblygu a chynnal y gwasanaeth dros y tair blynedd nesaf. |
| 8 | Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig. | Drwy ymgysylltu â bron i 1,000 o randdeiliaid, mae model drafft Cymru o bresgripsiynu cymdeithasol wedi cael ei ddatblygu ac mae nifer o themâu allweddol wedi'u nodi. Er mwyn sefydlu presgripsiynu cymdeithasol ledled Cymru a sicrhau cysondeb o ran darparu ar lefel leol, cynhelir ymarfer ymgynghori dros yr haf i ystyried pa safonau, canllawiau a chamau gweithredu sydd eu hangen fel rhan o fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol. |
| 9 | Adolygu cynllunio llwybr cleifion a chyllid hosbisau. | Mae'r adolygiad o gyllid hosbisau gwirfoddol bellach wedi'i gwblhau, a derbyniwyd yr argymhellion. Mae £2.2m yn ychwanegol wedi cael ei ddarparu yn gylchol o fis Ebrill 2022 ymlaen. |
| 10 | Datblygu cynllun gweithredu HIV i Gymru. | Mae gwaith ar y Cynllun Gweithredu HIV wedi dechrau. Mae Grŵp Cynllun Gweithredu HIV (HIVAPG) sy'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys clinigwyr, cynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y byd academaidd a chleifion arbenigol sy'n byw gyda'r clefyd, wedi cael ei sefydlu i helpu i'w ddatblygu. Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y cynllun drafft sydd wedi'i lunio ar y cyd â sefydliadau, arbenigwyr a phobl â phrofiad bywyd. |
| 11 | Cyflwyno cod ymarfer statudol ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth. | Daeth y Cod Ymarfer i rym ar 1 Medi 2021 gan gwblhau'r ymrwymiad hwn.<br><br>Cwblhawyd adolygiad annibynnol o alw a chapasiti gwasanaethau Niwroddatblygiadol pob oed ym mis Mawrth 2022. Cynhaliwyd arolwg arall ar brofiadau plant ac oedolion o ran cael gafael ar gymorth a gwasanaethau rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed** | | |
| 12 | Talu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal a, chan weithio gyda phartneriaid cymdeithasol drwy'r Fforwm Gwaith Teg, ystyried camau pellach tuag at sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo'n gydradd. | Yn dilyn cyngor gan y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol, darparwyd £43m o gyllid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd i gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymwys o fis Ebrill 2022 ymlaen.<br>Mae canllawiau wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddilyn wrth weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal.<br>Yn ogystal, gwnaethom gyhoeddi taliad untro o £1,498 (gros) i weithwyr gofal cymdeithasol, sy'n gymwys am y Cyflog Byw Gwirioneddol, i ddangos ein hymrwymiad i wella statws, telerau ac amodau, a llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. |
| 13 | Cynyddu prentisiaethau ym maes gofal a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg. | Mae gwaith yn parhau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid yn y sector ehangach, gan gynnwys cyflogwyr gofal cymdeithasol, i nodi rhwystrau a chyfleoedd i gynyddu prentisiaethau mewn gofal.<br>Mae ymgyrchoedd yn y cyfryngau wedi cael eu cyflwyno o dan faner 'Dewis Doeth' ac wedi hynny drwy frand llwyddiannus Gofal Cymdeithasol Cymru, Gofalwn Cymru. Nod y rhain yw hyrwyddo prentisiaethau mewn gofal cymdeithasol a rolau yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys i siaradwyr Cymraeg. |
| 14 | Sefydlu grŵp arbenigol i gynghori erbyn mis Ebrill 2022 ar y camau gweithredu ymarferol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth gofal cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. | Mae'r Grŵp Arbenigol wedi'i sefydlu a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2022. Bydd yn darparu argymhellion ar y camau ymarferol i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Mae'r Grŵp Arbenigol yn cynnwys unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad ym maes gofal cymdeithasol, cyllid, economeg, y byd academaidd a gofal iechyd. |
| 15 | Deddfu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach. | Roedd y *Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth* yn cynnwys manylion cyfres o gynigion trawsnewidiol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar integreiddio pellach gan gynnwys lansio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gwerth £144.6m y flwyddyn i sefydlu chwe Model Cenedlaethol ar gyfer Gofal Integredig. Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac Ailgydbwyso Cyfalaf yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.<br>Mae cydgynhyrchu a phartneriaeth yn ganolog er mwyn cyflawni'r Rhaglen Ailgydbwyso Rhanbarthol ac mae pum grŵp Gorchwyl a Gorffen rhanbarthol wedi'u sefydlu i oruchwylio'r gwaith. |
| 16 | Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal. | Drwy raglen gyfalaf y Gronfa Tai â Gofal, dyrannwyd £60.5m y flwyddyn (am o leiaf dair blynedd o 2022-23) i ariannu cartrefi cymdeithasol carbon isel arbenigol a llety i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae'r Gronfa yn adeiladu ar y Gronfa Gofal Integredig (2018-2022), a fuddsoddodd mewn 50 o gynlluniau tai, 66 o brosiectau gofal canolraddol, ac amrywiaeth o ganolfannau a chyfleusterau integredig. |
| 17 | Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith. | Bydd y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cael ei ehangu o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi rhieni plant 3 a 4 oed, sydd mewn addysg a hyfforddiant, i gael hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth bob wythnos am 48 wythnos y flwyddyn, yn yr un modd â rhieni sy'n gweithio ac sy'n gymwys. Ochr yn ochr â hyn, bydd gwaith yn cael ei ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o raglenni cymorth eraill gyda chostau gofal plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 18 | Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg. | Bydd y gwaith o ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn dechrau o fis Medi ymlaen. Mae £60m wedi'i ddyrannu dros y tair blynedd nesaf i helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn. |
| 19 | Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw. | Mae'r cymorth yn parhau ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg gyda £15m yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf. |
| 20 | Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal. | Mae fframwaith a meini prawf gwasanaeth a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eirioli cyson ledled Cymru yn cael eu datblygu gyda phartneriaid. Cytunwyd ar y trefniadau cyllido i gefnogi'r ddarpariaeth o fis Ebrill 2022 ymlaen. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad rhanbarthol presennol, datblygu'r fframwaith cenedlaethol ac annog dull gweithredu sy'n seiliedig ar gonsortiwm er mwyn gallu datblygu capasiti ychwanegol cyn ymestyn y ddarpariaeth i ranbarthau eraill. |
| 21 | Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal. | Drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae gwaith wedi canolbwyntio ar ganfod a buddsoddi mewn prosiectau a dulliau gweithredu newydd sydd o fudd i blant ag anghenion cymhleth, fel anabledd ac anghenion emosiynol/ymddygiadol, a fydd yn galluogi plant i aros yng ngofal eu teuluoedd. Mae 28 o brosiectau wedi cael eu nodi hyd yma, gan gynnwys Canolfannau Cymorth Cynnar a Phrosiect ICEBERG i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol plant ar draws nifer o amgylcheddau. |
| 22 | Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal. | Mae Bwrdd Trosolwg wedi cael ei sefydlu i sbarduno trawsnewidiadau mewn gwasanaethau plant. Mae'r Bwrdd yn cydweithio â'r sector ar ddysgu gan gyfoedion a datblygiad proffesiynol ac yn cefnogi dull gweithredu ar draws y system i wella ansawdd a gwasanaethau. Mae £3m o gyllid wedi cael ei glustnodi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda Diwygio Radical.<br><br>Fel rhan o'r gwaith ehangach o drawsnewid Gofal Cymdeithasol, mae'r Bwrdd yn rhoi cyngor ar elfennau'r Fframwaith Gofal Cenedlaethol sy'n ymwneud â phlant. Bydd y Bwrdd yn datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru. |
| 23 | Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. | Mae Bwrdd Rhaglen aml-asiantaeth wedi cael ei sefydlu i gefnogi gwaith sy'n canolbwyntio ar ddatblygu digonolrwydd lleoliadau, cefnogi'r newid i fodelau nid-er-elw, diffinio elw, a llywio ein dull deddfwriaethol.<br><br>Mae £10m y flwyddyn ar gael am y tair blynedd nesaf i helpu awdurdodau lleol a darparwyr nid-er-elw presennol i ehangu'r ddarpariaeth bresennol, datblygu capasiti lleoliadau, diogelu rhag ansefydlogrwydd yn y farchnad. |
| 24 | Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. | Cafodd cyllid ei nodi yn 2021-22 i ysgogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth yn holl ardaloedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn dilyn hynny, dyrannwyd £4.8m drwy'r Gronfa Gofal Integredig i ysgogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau preswyl rhanbarthol. Mae'r cyswllt â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i fonitro cynnydd ac amserlenni ar gyfer sefydlu'r unedau preswyl newydd yn ffurfiol. |
| 25 | Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'. | Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol i gryfhau rhianta corfforaethol mewn awdurdodau lleol ac i ehangu cyfrifoldebau ar draws y sector cyhoeddus. Mae wedi canolbwyntio ar ddatblygu Siarter Rhianta Corfforaethol, sy'n cael ei chwblhau'n derfynol. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol** | | |
| 26 | Cyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc, gan roi'r cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed. | Daeth y Warant i Bobl Ifanc yn weithredol o 30 Medi 2021, a rhwng hynny a 31 Mawrth 2022, mae 2,727 o bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol wedi defnyddio'r gwasanaeth. Mae Cymru'n Gweithio wedi lansio gwasanaeth newydd i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith. Mae 52,463 o swyddi wedi cael eu hysbysebu, hyd at 31 Mawrth 2022. |
| 27 | Creu 125,000 o brentisiaethau bob oed. | Rhwng mis Mai a mis Hydref 2021, cychwynnwyd 10,385 o brentisiaethau. Mae Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr wedi cael ei gyflwyno'n benodol i annog recriwtio pobl anabl, gan gefnogi dysgwyr a chyflogwyr ar ôl y pandemig. Sefydlwyd model newydd ar gyfer Rhannu Prentisiaethau i gefnogi'r gwaith o ehangu i sectorau newydd a recriwtio pobl ifanc o dan anfantais a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>Mae contractau'r Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau wedi cael eu dyfarnu, a byddant yn rhedeg o 1 Awst 2021 i 31 Gorffennaf 2025. |
| 28 | Rhoi sail ddeddfwriaethol i'r bartneriaeth gymdeithasol drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). | Fe wnaethom ymgynghori ar fersiwn ddrafft Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ym mis Gorffennaf 2021. Cyflwynwyd y Bil gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2022. |
| 29 | Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio. | Mae'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau a busnesau ac wedi gweithio'n agos gyda gwasanaeth Busnes Cymru. Yn ystod 2021-2022, bu Gwasanaeth Cymorth Anabledd Busnes Cymru yn ymgysylltu â 286 o fusnesau, gan roi cyngor i 162 o gleientiaid. Derbyniodd 103 o fusnesau gyngor i newid polisïau a gweithdrefnau ac mae 44 o fusnesau wedi ymrwymo i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd.<br>Roedd yr hyrwyddwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Warant i Bobl Ifanc a rhaglenni cyflogadwyedd eraill wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu gan fod yn ymwybodol o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Mae ein rhaglenni cyflogadwyedd wedi cael eu gwella i sicrhau y bydd y garfan hon yn cael y cymorth unigol sydd ei angen i gael gwaith cynaliadwy. Cynyddodd y canlyniadau cyflogaeth ar gyfer y garfan hon o 13% i 19% rhwng 2020/21 a 2021/22. |
| 30 | Cryfhau ein Contract Economaidd. | Cryfhawyd y Contract Economaidd drwy ddiweddaru'r pedwar piler i adlewyrchu ein blaenoriaethau o ran cryfder economaidd a'r gallu i addasu; gwaith teg; hyrwyddo llesiant; a charbon isel a gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae angen i fusnesau rydym yn eu cefnogi nawr ddangos arferion cyfredol a gwneud tri i bum ymrwymiad sy'n cyfrannu ymhellach at bob un o'r pileri. |
| 31 | Cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau undeb ddod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle. | Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i gefnogi'r gwaith o uwchsgilio cynrychiolwyr undebau llafur i ymgymryd â rôl Cynrychiolwyr Gwyrdd o fis Ebrill 2022 ymlaen. |
| 32 | Cefnogi'r gwaith o greu Banc Cymunedol i Gymru. | Cefnogodd Llywodraeth Cymru y gwaith ymchwilio a wnaed gan Cambria Cydfuddiannol Cyf. ac arweiniodd hyn, ym mis Rhagfyr 2021, at Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn cyhoeddi ei bwriad i ddatblygu ei dull o ddarparu banc cymunedol yng Nghymru a fydd yn ceisio darparu gwasanaethau bancio manwerthu pob dydd mewn cymunedau ledled Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun busnes manwl. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 33 | Datblygu Her Morlyn Llanw a chefnogi syniadau a all wneud Cymru yn ganolfan fyd-eang i dechnolegau llanw sy'n dod i'r amlwg. | Mae gan y Rhaglen Ynni'r Môr, sydd wrthi'n cael ei datblygu, dri phrosiect sy'n rhan ohoni: datblygu Her Morlyn Llanw; galluogi a chefnogi gwaith uwchraddio seilwaith ym mhorthladdoedd Cymru i gefnogi'r sector gwynt ar y môr a'i gadwyn gyflenwi; a chefnogi twf yn y sector ffrwd lanw a thonnau yng Nghymru. Nod pob un o'r prosiectau hyn yw cyfrannu at sero net a sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol sylweddol i Gymru. |
| 34 | Galluogi canol ein trefi i fod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio'n gydweithredol, cynyddu eu darpariaeth ddigidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol. | Mae cynlluniau i gefnogi busnesau i gydweithio i wella canol eu trefi yn cael eu datblygu. Bydd £800,000 dros dair blynedd yn cefnogi busnesau canol trefi i ddefnyddio technolegau digidol yn eu gweithgareddau cynllunio a marchnata yn y dyfodol. |
| 35 | Ceisio targed o 30% ar gyfer gweithio o bell. | Cyhoeddwyd y *Strategaeth Gweithio o Bell* ym mis Mawrth 2022. Mae'r rhwydwaith o dros 25 o ganolfannau peilot bellach ar agor. |

## Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl

| | | |
|---|---|---|
| 36 | Lansio Cynllun Buddsoddi 10 mlynedd newydd yn Seilwaith Cymru ar gyfer economi ddi-garbon. | Cyhoeddwyd y *Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* ym mis Rhagfyr 2021, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio'n glir ar wneud yn siŵr bod buddsoddiadau mewn seilwaith yn cyfrannu at economi ddi-garbon. |
| 37 | Darparu'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu. | Mae cynnydd wedi cael ei wneud ar draws chwe maes cenhadaeth y Strategaeth Ddigidol.<br><br>Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol wedi meithrin gallu digidol ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru drwy gefnogi prosiectau gweddnewid digidol enghreifftiol, darparu hyfforddiant a chytuno ar set o Safonau Gwasanaethau Digidol.<br><br>Mae pwysigrwydd rhannu data wrth wneud penderfyniadau effeithiol wedi cael ei ddangos drwy ddefnyddio platfform MapDataCymru a rennir ar draws y sector cyhoeddus. Mae buddsoddiad o £500,000 ym mhrosiect Cyflymydd Cenedl Data Cymru wedi cefnogi rhaglen genedlaethol o gydweithio ac arloesi mewn addysg uwch a'r economi.<br><br>Mae'r Gronfa Band Eang Lleol gwerth £20m wedi cefnogi awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i ddarparu cysylltedd band eang i gymunedau yng Nghymru. Hyd yma, mae £12m o gyllid cyfalaf a £500,000 mewn refeniw wedi'i ymrwymo a bydd y cyllid yn cefnogi 10 cymuned ledled Cymru i gael mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy. Mae'r broses o gyflwyno ffeibr llawn gwerth £56m wedi darparu band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit i bron i 30,000 o adeiladau hyd yma. Yn ystod 2021-2022, cafodd cynllun Allwedd Band Eang Cymru (ABC) 390 o geisiadau gan fusnesau, 2111 gan adeiladau preswyl a 10 gan y trydydd sector. Mae nifer y ceisiadau i'r cynllun ABC wedi dyblu o lefelau cyn y pandemig, gan adlewyrchu'r angen am gysylltedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. |
| 38 | Creu sylfaen ddeddfwriaethol fodern ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. | Cyhoeddwyd y Papur Gwyn *Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn* ym mis Mawrth 2022. Roedd yn nodi cynlluniau i greu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau bysiau, gan greu system sy'n gallu gwella gwasanaethau ac ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 39 | Codi'r gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu cwmnïau bysiau trefol newydd. | Rhoddir sylw i hyn yn ymrwymiad 38. |
| 40 | Deddfu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau preifat a mynd i'r afael â phroblemau trawsffiniol. | Mae Papur Gwyn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn cael ei ddatblygu ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector tacsis a cherbydau hurio preifat, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o grwpiau diddordeb. |
| 41 | Rhoi ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru ar waith. | Mae Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn cael ei ddatblygu gyda Trafnidiaeth Cymru a fydd yn amlinellu'r cynlluniau, y prosiectau a'r polisïau a fydd yn cyflawni yn erbyn y targedau datgarboneiddio a newid dulliau teithio a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth newydd wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni *Llwybr Newydd*; *Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021* a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2022. |
| 42 | Adeiladu ar lwyddiant ein cynllun teithio am ddim i bobl hŷn ac edrych ar sut y gall prisiau teg annog teithio integredig. | Mae gwerthusiad o amrywiaeth o opsiynau i wneud teithio ar fysiau yn fwy hygyrch a fforddiadwy i bawb yn y gymuned wedi cael ei gomisiynu mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg teithio cenedlaethol o dros 1,500 o bobl o bob cwr o Gymru ac arolwg manwl o farn pobl am y cynlluniau teithio rhatach a dreialwyd yng Nghaerdydd a Chasnewydd. |
| 43 | Gweithio tuag at ein targed newydd o 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, gan bennu nodau mwy ymestynnol lle bo hynny'n bosibl. | Mae amrywiaeth o bolisïau'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith i leihau dibyniaeth ar geir. Mae hyn yn cynnwys adolygu Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r strategaeth drafnidiaeth, diwygio'r ddeddfwriaeth bysiau gan gynnwys cyhoeddi'r Papur Gwyn ym mis Mawrth, sefydlu'r panel adolygu ffyrdd, a rhaglen o fuddsoddiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a thrafnidiaeth carbon isel. |
| 44 | Bwrw ymlaen ag adroddiad Comisiwn Burns ar gyfer Casnewydd. | Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Uned Cyflenwi Burns ym mis Ionawr 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed gyda'r argymhellion gan Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau £2.7m o gyllid Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â gwaith cwmpasu pellach ar welliannau i brif linell y De. |
| 45 | Datblygu cronfa prif ffyrdd newydd i wella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd wrth ymyl prif lwybrau trafnidiaeth Cymru. | Bydd cynllun bioamrywiaeth Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cael ei lansio ddiwedd haf 2022. Bydd y Gronfa Prif Ffyrdd yn adeiladu ar y gwaith hwn. |
| 46 | Creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy. | Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i ymgynghoriad y Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth yng Nghymru ym mis Medi 2021. Mae'r ymgysylltu'n parhau â'r gymuned ffermio fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Bil Amaethyddiaeth Cymru a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. |
| 47 | Cyflwyno cyfnod pontio i'r cynllun cymorth ffermio newydd, gan gynnwys parhau â thaliadau sefydlogrwydd, y tu hwnt i dymor y Senedd bresennol. | Ym mis Medi 2021, cafodd Cynllun y Taliad Sylfaenol a chontractau Glastir eu hymestyn tan ddiwedd 2023. Mae hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad na fydd unrhyw un yn wynebu sefyllfa drychinebus o ran arian. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu cyfnod pontio tuag at Gynllun Ffermio Cynaliadwy y dyfodol. Bydd taliadau sefydlogrwydd yn parhau i fod yn nodwedd o'r Cynllun yn ystod tymor y Senedd hon a'r tu hwnt. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn** | | |
| 48 | Comisiynu cyngor annibynnol a fydd yn ymchwilio i lwybrau posibl tuag at sero net erbyn 2035. | Mae gwaith cwmpasu ar y gweill, gan gynnwys trafodaethau gyda darparwyr posibl a gwaith datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau ac arbenigedd ategol. |
| 49 | Mynd ar drywydd datganoli'r pwerau sydd eu hangen i'n helpu i gyrraedd sero net, gan gynnwys rheoli Ystad y Goron yng Nghymru. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r achos dros ddatganoli Ystad y Goron yng Nghymru. Yn y cyfamser, mae gwaith yn parhau gydag Ystad y Goron i fanteisio i'r eithaf ar ynni adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru a'r tu hwnt. |
| 50 | Gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth. | Mae canllawiau ar ddefnyddio Egwyddorion Amgylcheddol wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth wedi cael eu datblygu fel mesur dros dro i fynd i'r afael â'r bwlch o ran cymhwyso Egwyddorion Amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r canllawiau dros dro yn ddogfen fewnol a gynhyrchwyd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.<br>Ers mis Mawrth 2021, mae asesydd dros dro wedi bod yn gweithio i ystyried pryderon sy'n codi am swyddogaeth cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Yn ystod y deuddeng mis cyntaf, derbyniodd yr asesydd dros dro 21 o gyflwyniadau gan y cyhoedd. |
| 51 | Deddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel. | Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahardd eitemau plastig untro wedi cael eu dadansoddi ac mae cynigion wedi cael eu trafod ag amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol. Mae hyn yn sail i ddatblygu cynigion deddfwriaethol. |
| 52 | Cyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gymell busnesau i leihau gwastraff. | Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar y cyd â gwledydd eraill y DU. Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad a chynllun terfynol y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2022. |
| 53 | Creu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r Gogledd i'r De. | Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd cyfres o offer mapio GIS Map Data Cymru, a oedd yn galluogi unigolion a chymunedau i weld sut y byddai'r Goedwig Genedlaethol yn edrych yn eu hardal.<br>Ym mis Gorffennaf 2021, dyfarnodd y Grant Buddsoddi mewn Coetir gyllid i 9 prosiect o ansawdd uchel ac mae 15 prosiect arall wedi cael cyllid o dan y Cynllun Coetiroedd Cymunedol, ar y cyd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cyhoeddwyd y bydd tair Coedlan Goffa yn cael eu datblygu yng Nghymru er cof am y rheini a fu farw o Covid-19 ac i gofio am wytnwch y genedl drwy gydol y pandemig. Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd cam cyntaf 'Fy Nghoeden, Ein Coedwig', a oedd yn cynnig 5,000 o goed cyntaf yr ymgyrch i ddarparu coeden am ddim i bob aelwyd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. |
| 54 | Manteisio ar botensial economaidd, diwylliannol a hamdden y Goedwig Genedlaethol gan adeiladu ar ein cynnydd tuag at greu diwydiant coed cynaliadwy. | Ym mis Chwefror 2022, lansiwyd cynllun cynllunio creu coetir newydd, a oedd yn cynnig grantiau ar gyfer creu coetiroedd newydd ac adeiladu ffrwd o brosiectau coetir newydd.<br>Mae gwerth £1.5m o gyllid ar gael i redeg cam 2 y prosiect Cartrefi Cynhenid. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi datblygu nifer o gynigion ar gyfer dulliau amgen o werthu pren a allai sicrhau gwerth cymdeithasol uwch. |
| 55 | Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru. | Ar hyn o bryd mae gwaith ar Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru yn canolbwyntio ar gwmpasu, casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 56 | Sicrhau diogelwch tomenni glo drwy gyflwyno deddfwriaeth i ddelio â gwaddol canrifoedd o fwyngloddio, gan gryfhau pwerau'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu diogelu. | Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd y Papur Gwyn, sy'n nodi ein cynlluniau i ddarparu dull cyson o reoli, monitro a goruchwylio tomenni. Roedd hyn yn dilyn adroddiad adolygu Comisiwn y Gyfraith a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.<br><br>Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid y Tasglu i ddarparu dull cyson o ymdrin â'r gyfundrefn arolygu bresennol. Mae'r rhaglen arolygiadau'n sylweddol ac mae wedi nodi'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen i sicrhau sefydlogrwydd safleoedd. Mae £44.4m wedi'i ymrwymo dros y tair blynedd nesaf i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.<br><br>Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid, gan gynnwys diwydiant gofod y DU, i wella'r ffordd mae tomenni'n cael eu monitro. |
| 57 | Cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, yn gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ac ehangu'r ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. | Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân, mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi, eu hadolygu a'u trafod â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddeddf Aer Glân i Gymru ac amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol eraill er mwyn datblygu'r Bil. |
| 58 | Dynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diwygio a diweddaru'r canllawiau a fydd yn darparu'r fframwaith i'w ddilyn yn ystod yr asesiad ffurfiol o'r Parc Cenedlaethol newydd. Bydd y canllawiau hyn yn sicrhau bod proses dryloyw, wedi'i diffinio'n glir, ar gyfer sut bydd hyn yn cael ei roi ar waith. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal trafodaethau cychwynnol ag awdurdodau lleol ynghylch ffiniau posibl y Parc Cenedlaethol newydd. |
| 59 | Cefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi. | Mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ledled Cymru wedi cael ei gefnogi, gan gynnwys canolfannau stryd fawr, siopau ailddefnyddio ac atgyweirio; ac ehangu cyfleusterau ar gyfer atgyweirio cymunedol, gan gynnwys caffis atgyweirio, a Benthyg, y 'Llyfrgell Pethau'. Hyd yma, mae tua 30 o ganolfannau wedi cael eu cefnogi ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu arferion gorau a gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd er mwyn cyfrannu at ehangu'r seilwaith angenrheidiol ymhellach yn ein trefi a'n cymunedau. |
| 60 | Cynnal ein polisi o wrthwynebu cloddio am danwydd ffosil yng Nghymru, ar dir ac yn nyfroedd Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael inni. | Mae'r offer a'r canllawiau sy'n angenrheidiol i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd statudol i weinyddu trwyddedau petrolewm presennol, i bennu trwyddedau gweithrediadau mwyngloddio'r Awdurdod Glo ac i bennu trwyddedau storio a gwerthuso Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) newydd yn parhau i gael eu datblygu drwy ymgynghori. Mae gwaith hefyd yn parhau gyda Llywodraeth y DU ar ddiwygio cylch gwaith cyfreithiol yr Awdurdod Glo.<br><br>I gefnogi uchelgeisiau domestig a chyfrifoldebau byd-eang, mae Cymru wedi ymuno â chynghrair fyd-eang newydd o wledydd sy'n addo rhoi'r gorau i drwyddedu cynhyrchu olew a nwy mewn ymdrech i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Fel aelod sylfaenol o'r Gynghrair y Tu Hwnt i Olew a Nwy, neu BOGA (Beyond Oil and Gas Alliance), bydd Cymru'n gweithio ar lefel ryngwladol i gefnogi a rheoli'r gwaith o roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio olew a nwy. |
| 61 | Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol. | Mae cam datblygu a dylunio ar gyfer y Rhaglen Rhwydwaith Natur wedi cael ei gyflawni o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunwyd ar fecanweithiau darparu ar gyfer Blwyddyn 1 y rhaglen (22/23) a dyrannwyd tua £13.3m. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio'r rhaglen ar gyfer blynyddoedd 2 a 3.<br><br>Buddsoddodd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur £8.55m i ariannu dros 300 o brosiectau yn 2021/22. Mae'r cynllun Pecynnau Cymunedol wedi darparu 279 o erddi natur, 117 o ardaloedd tyfu bwyd a 157 o berllannau cymunedol ac wedi plannu 5000 o goed. Cyflawnodd y Partneriaethau Natur Lleol brosiectau helaeth o ran arferion torri gwair a lleiniau, ynghyd â 15 o brosiectau cronfa her, a chyflawnodd gyfanswm o 59 o brosiectau ledled Cymru. Mae pump o brosiectau'r Cynllun Chwalu Rhwystrau wedi cael eu cymeradwyo i gefnogi cymunedau o dan anfantais a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.<br><br>Mae rhaglen ddomestig Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles wedi creu neu wella 6,958 o fannau gwyrdd, wedi creu neu adfer 87 o ddolydd ac wedi darparu 85 o fentrau tyfu bwyd cymunedol ers i'r rhaglen gychwyn, hyd at fis Ebrill 2022. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi** | | |
| 62 | Ariannu hyd at 1,800 o staff tiwtora ychwanegol yn ein hysgolion. | Mae gan bob ysgol yng Nghymru hawl i gael cyllid drwy'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Mae dros 1,800 o staff ysgol wedi cael eu penodi a'u cadw mewn ysgolion yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i'r Rhaglen. |
| 63 | Adeiladu ar Raglen Gwella Gwyliau'r Haf. | Cyflwynodd cyfanswm o 139 o gynlluniau mewn 21 ardal awdurdod lleol y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf i 194 carfan yn 2021, gan ddarparu 7,740 o leoedd.<br>Dyrannwyd £4.85m i raglen haf 2022 sy'n golygu bod modd darparu hyd at 300 o garfanau (sy'n cynnig 12,000 o leoedd). |
| 64 | Parhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n deillio o'r pandemig ac adolygu'r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu ac i bob plentyn ysgol gynradd o leiaf. | Ers dechrau'r pandemig, mae £100m wedi cael ei sicrhau ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan gynnwys £23.3m yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol drwy gydol y pandemig.<br>Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu dull o ddarparu gwasanaeth prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed cynradd, wedi'i gefnogi gan £225m o gyllid. |
| 65 | Buddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. | Mae cyllid gwerth £3.84m wedi'i ddyrannu i ehangu'r ddarpariaeth Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel.<br>Dyrannwyd £20m i awdurdodau lleol eleni ar gyfer Ysgolion Bro; sy'n ariannu ffyrdd ymarferol o wella cyfleusterau ysgolion a galluogi'r gymuned i'w defnyddio'n amlach. |
| 66 | Ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. | Mae gwaith ymchwil cychwynnol wedi cael ei wneud a'i gyhoeddi, er mwyn ystyried dulliau gweithredu cenedlaethol a rhyngwladol o ran strwythur y diwrnod a'r flwyddyn ysgol. Mae rhagor o waith casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei gwblhau. Cafodd ymchwil gymdeithasol sy'n edrych ar ganfyddiadau o'r flwyddyn ysgol bresennol a chalendrau ysgolion amgen ei cyhoeddi ym mis Mehefin 2022.<br>Cymerodd 13 o ysgolion ac un coleg ran mewn treial, wedi'i gefnogi gan hyd at £2m o gyllid, a oedd yn gwarantu pum awr ychwanegol o weithgareddau cyfoethogi ychwanegol i grwpiau o ddysgwyr bob wythnos, am 10 wythnos. Cefnogwyd dros 1,800 o ddysgwyr, a fu'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, chwaraeon, hamdden, cymdeithasol ac academaidd. Mae'r treialon hyn nawr yn cael eu gwerthuso. |
| 67 | Datblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo. | Mae opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer model cynaliadwy ar gyfer athrawon cyflenwi ac mae'r rhain yn cael eu trafod â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol, i sicrhau bod dull gweithredu amgen yn ymarferol.<br>Gofynnwyd i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ystyried cyflogau ac amodau athrawon cyflenwi sydd o fewn cwmpas y ddogfen tâl ac amodau athrawon statudol. Mae hyn yn rhan o adolygiad strategol ehangach o gyflogau ac amodau athrawon. |
| 68 | Gwella'r trefniadau ar gyfer addysgu hanes Cymru, yn ei holl amrywiaeth a chymhlethdod, fel rhan fandadol o'r cwricwlwm newydd. | Yn dilyn yr ymgynghoriad yn hydref 2021, daeth yn orfodol dysgu am hanesion a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel rhan annatod o ddysgu am hanes Cymru yng Nghwricwlwm Cymru. Ym mis Ionawr, dosbarthwyd copïau o lyfr ar hanes Cymru, *Hanes yn y Tir / History Grounded*, i bob ysgol a chomisiynwyd rhagor o adnoddau.<br>Cafwyd sgwrs ag athrawon Rhwydwaith Cenedlaethol am hanes Cymru a hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a oedd yn edrych ar berthyn a hunaniaeth yn gynharach eleni. Cynhaliwyd digwyddiadau dysgu proffesiynol wedi'u hariannu ar gyfer athrawon hefyd. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 69 | Mynd â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drwy'r Senedd. | Ar 1 Tachwedd 2021, cyflwynwyd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Pasiwyd y Bil ar 28 Mehefin a bydd yn sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. |
| 70 | Datblygu strategaeth arloesi genedlaethol newydd, sy'n seiliedig ar genhadaeth, i'w gweithredu ar draws y llywodraeth a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. | Mae rhaglen helaeth o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd, wedi cael ei chynnal er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth arloesi genedlaethol newydd. Mae ymgysylltu â dinasyddion, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, yn mynd rhagddo. |
| 71 | Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren | Mae cynllun tair blynedd wedi cael ei ddatblygu i ddeall demograffeg dysgwyr Seren a sut gellir darparu rhagor o gymorth i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i gymryd rhan yn y rhaglen.<br>Mae'r cynllun yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i gytuno ar ddiffiniad o ddysgwr o gefndir difreintiedig a chasglu'r data hwn fel sail ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol. Mae porth cofrestru ar-lein wrthi'n cael ei ddatblygu. Fel rhan o'r cofrestriad hwn, bydd angen nodi nodweddion demograffig yn unol â'r diffiniad y cytunwyd arno. Bydd hyn yn golygu bod modd gosod targedau. |

## Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math

| | | |
|---|---|---|
| 72 | Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. | Cyhoeddwyd *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* ym mis Mehefin 2022, a oedd yn nodi gweledigaeth ar gyfer Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030 a chyfres o gamau gweithredu i'w cyflawni rhwng 2022-2024. Paratowyd y cynllun ar y cyd â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. |
| 73 | Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu. | Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar sicrhau bod deddfwriaeth bresennol ac arfaethedig yn cael ei defnyddio yn llawn; mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyfleoedd posibl sy'n cael eu darparu drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae gwaith yn parhau gyda chyflogwyr ac undebau llafur i hyrwyddo arferion gorau. Ym mis Rhagfyr, gosodwyd carreg filltir genedlaethol ar gyfer dileu'r bwlch cyflog mewn perthynas â rhyw, hil ac anabledd erbyn 2050 yn y Senedd. |
| 74 | Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo cydraddoldeb cyflog yn y cyd-destun cyllidol heriol presennol. Mae trafodaethau'n parhau gyda Grŵp y Sector Datganoledig, gan ganolbwyntio ar Gyrff Hyd Braich, gyda'r nod o gytuno ar gamau gweithredu wedi'u targedu. |
| 75 | Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol. | Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru ym mis Chwefror 2022. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu'r cynllun peilot yn ogystal â gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae'r canllawiau a'r mecanweithiau cyflwyno ar gyfer y cynllun, yn ogystal â'r cymorth ychwanegol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, wrthi'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 76 | Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd. | Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 dyfarnwyd £348,698 o gyllid grant i amrywiol brosiectau peilot a oedd yn cyfrannu at wella cynrychiolaeth yn y sector diwylliant a'r rhwydwaith amgueddfeydd. Dyfarnwyd cyllid i'r canlynol: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, ymgynghorydd treftadaeth annibynnol, yn gweithio gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, CILIP Cymru Wales, a Race Council Cymru.<br><br>Mewn ymateb i dri adroddiad a gomisiynwyd ar y ffordd orau o ehangu ymgysylltiad, cyhoeddodd Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ar y cyd ym mis Chwefror 2022. |
| 77 | Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl. | Darparwyd £10m o arian cyfatebol i gynllun Mynediad i Bawb Llywodraeth y DU sy'n uwchraddio gorsafoedd yng Nghymru i sicrhau nad oes grisiau ynddynt. Mae buddsoddiad wedi bod hyd yma yng Nghaerffili, Cathays, Trefforest, Tref y Barri, y Fflint, Cwmbrân, y Fenni, Dinbych-y-pysgod, y Drenewydd, Llanelli a Llwydlo. Mae'r enwebiadau ar gyfer y rownd nesaf o gyllid wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno.<br><br>Mae rhaglen gwerth £1.75m wedi cael ei sicrhau, gan gynnwys £1m gan Lywodraeth y DU a £0.75m gan Drafnidiaeth Cymru (TrC), i ddarparu toiledau Changing Places mewn sawl gorsaf ac ymylon palmentydd botymog mewn gorsafoedd eraill.<br><br>Mae cerbydau presennol wedi cael eu huwchraddio er mwyn cydymffurfio â gofynion cenedlaethol Pobl â Symudedd Cyfyngedig a bydd pob trên newydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.<br><br>Bydd y cynllun teithio am ddim ar gyfer pobl sydd â phàs bws, gan gynnwys pobl anabl, yn parhau ar nifer o reilffyrdd – Arfordir y Cambrian a Chalon Cymru yn ystod cyfnod tawelach y gaeaf a thrwy gydol y flwyddyn ar reilffyrdd Dyffryn Conwy a Wrecsam – Bidston.<br><br>Mae cymorth wedi cael ei roi i Banel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC – panel unigryw o bobl sydd ag amrywiaeth o brofiadau byw sy'n rhoi cyngor ar faterion seilwaith a gweithredol a lle mae aelodau'n cynnal teithiau cwsmer cudd ac ymweliadau safle, gan arwain at gyngor ac argymhellion i'r diwydiant. |
| 78 | Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. | Ar y cyd â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, lluniwyd *Cynllun Adfer Covid y Trydydd Sector* sy'n gosod blaenoriaethau ar y cyd. Ym mis Awst 2021, lansiwyd trydydd cam Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, gan ddarparu £6.5m i helpu sefydliadau hyfyw yn y sector gwirfoddol i ddatblygu'r cynaliadwyedd a'r gwydnwch sydd eu hangen ar gyfer yr hirdymor.<br><br>Sefydlwyd Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol gwerth £5m i gynnig benthyciadau o hyd at £250,000 dros gyfnod o 25 mlynedd i fudiadau trydydd sector sy'n ceisio cymryd perchnogaeth o asedau cymunedol – tir neu adeiladau.<br><br>Yn ogystal, darparwyd £0.5m i gefnogi sgiliau digidol yn y sector gwirfoddol drwy bartneriaeth Newid (o dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cwmpas a Promo Cymru). |
| 79 | Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw. | Gan adeiladu ar werthusiad parhaus y peilot Cyfrifon Dysgu Personol, mae gwaith wedi dechrau ar ddau faes peilot arall; y Warant i Bobl Ifanc a Theithio Llesol. Er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, defnyddiwyd cysylltiadau drwy rwydwaith y Llywodraethau Llesiant (WeGo) i archwilio sut gallwn ni adfywio ein cysylltiadau rhyngwladol yn y maes hwn. |
| 80 | Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref. | Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i chryfhau o *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 - 2026* ym mis Mai 2022. Datblygwyd y Strategaeth gyda sefydliadau partner allweddol gan gynnwys yr heddlu, y sector arbenigol a goroeswyr. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a’r celfyddydau i ffynnu** | | |
| 81 | Sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol. | Lansiwyd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol a chyhoeddwyd y *Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth* ym mis Mai, gyda chymorth gwerth £13.5m o gyllid dros y tair blynedd nesaf. Bydd cysylltiadau cryf rhwng y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol a’r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ein plant a’n pobl ifanc, yn enwedig y rheini o deuluoedd sydd ar incwm isel, er mwyn iddynt gael cyfleoedd i ddysgu cerddoriaeth mewn ysgolion a’r gymuned gerddoriaeth ehangach. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fydd y corff arweiniol, a fydd yn gyfrifol am drefniadau llywodraethu ac am ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol i gyflawni’r blaenoriaethau yn y Cynllun. Yn y rôl hon, bydd CLlLC yn sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn amrywiol ac yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc. |
| 82 | Cyflwyno deddfwriaeth sy’n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth. | Mae ardoll ymwelwyr yn ôl disgresiwn wrthi’n cael ei datblygu, y gall awdurdodau lleol ddewis ei rhoi ar waith yng Nghymru. Mae trafodaethau polisi a gweithdai technegol gydag amrywiaeth o bartneriaid wedi dechrau. Mae’r gweithdai hyn yn helpu i nodi a deall opsiynau dylunio ar gyfer ardoll a’u heffeithiau posibl. Mae gwaith ymgysylltu wedi mynd rhagddo â gweinyddiaethau ar draws y byd, i ddeall sut maent wedi dylunio a rhoi trethi tebyg ar waith. Mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud i asesu effeithiau posibl yn fanylach. Drwy’r gwaith ymgysylltu a’r gwaith ymchwil hwn, mae ymgynghoriad ac asesiad effaith rheoleiddiol rhannol yn cael eu datblygu. |
| 83 | Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg. | Dyddiau cynnar yw hi o ran datblygu cynigion polisi ar gyfer Bil, ac mae opsiynau’n cael eu datblygu ar hyn o bryd. |
| 84 | Symleiddio’r broses ar gyfer gweithredu Safonau’r Gymraeg. | Roedd gan 120 o gyrff ddyletswydd i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg rhwng mis Mai 2021 a 31 Mawrth 2022. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i orfodi a monitro cydymffurfiaeth y cyrff hynny â safonau ac yn ymchwilio i gwynion am achosion honedig o dorri safonau. Mae gwaith y Comisiynydd yn hyn o beth yn rhoi hawliau i ddinasyddion ddefnyddio’r Gymraeg wrth ymdrin â’r cyrff hyn. |
| 85 | Gweithredu safonau’r Gymraeg ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus; rheoleiddwyr yn y sector iechyd; cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu a chwmnïau dŵr; a dechrau’r gwaith o weithredu safonau ar gymdeithasau tai. | Cafodd rheoliadau safonau’r Gymraeg ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd eu gosod gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2022. Bydd y safonau yn rhoi hawliau i ddinasyddion ddefnyddio’r Gymraeg wrth ddelio â rheoleiddwyr gofal iechyd. Mae rhaglen waith wedi cael ei datblygu i ddod â rhagor o gyrff o dan safonau’r Gymraeg. |
| 86 | Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei siarad mewn rhagor o leoedd, gan gynnwys gweithleoedd. | Mae gwaith wedi cael ei wneud gyda CWMPAS (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt) i greu cwmnïau cydweithredol newydd, sef, gweithleoedd a/neu wasanaethau sy’n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ymysg eu gweithwyr, eu partneriaid, eu cwsmeriaid a’r gymuned gyfagos.<br><br>Mae cyllid wedi cael ei ddarparu i Brifysgol Bangor i ddatblygu ‘ARFER’, rhaglen seiliedig ar addewid ymddygiadol i helpu siaradwyr Cymraeg, nad yw eu Cymraeg wedi bod yn rhan o’u trefn arferol ers tro, i ddefnyddio’u Cymraeg yn y gweithle. Mae cam peilot o’n hymgyrch Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog (drwy Academi Wales a Phrosiect 2050) wedi cael ei gwblhau. Mae’r rhaglen iaith-mewn-arweinyddiaeth hon yn archwilio sut gall uwch arweinwyr wneud gwerthoedd ac arferion Cymraeg 2050 yn rhan annatod o’u gwaith. |
| 87 | Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. | Daeth yr ymgynghoriad ar fersiwn drafft y *Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg* i ben ym mis Chwefror 2022. Roedd y Cynllun yn cynnwys cynigion ar gyfer ystod eang o ymyriadau economaidd, tai ac ieithyddol o dan arweiniad y gymuned i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 88 | Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru a darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru. | Mae opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys sefydlu panel o arbenigwyr i edrych ar greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru. |
| 89 | Mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu. | Mae opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn i baratoi ar gyfer gweithgarwch yn 2022/23. |
| 90 | Ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd. | Mae gwaith ar Strategaeth Ddiwylliant newydd yn mynd drwy'r cam gwerthuso opsiynau ar hyn o bryd. |
| 91 | Buddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ymrwymo i Theatr Clwyd, sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol | Dyrannwyd £22m o gyllid i ailddatblygu Theatr Clwyd.<br><br>Mae gwaith yn parhau i ddatblygu Amgueddfa Bêl-droed Cymru, gan gynnwys datblygu'r themâu a'r cynnwys posibl ar gyfer yr orielau newydd a'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer cynllun yr adeilad.<br><br>Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol a digideiddio'r casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes. Mae achos busnes amlinellol wrthi'n cael ei ystyried.<br><br>Mae buddsoddiadau wedi cael eu gwneud mewn cyfres o brosiectau yn y sector amgueddfeydd lleol, gan gynnwys buddsoddiadau cyfalaf drwy ein Cronfa Grantiau Gweddnewid, fersiwn Gymraeg o'r ap sy'n gydnaws â dementia ac sydd wedi ennill sawl gwobr, sef Tŷ Atgofion, a rhaglenni hyfforddi a chefnogi gan gynnwys helpu amgueddfeydd lleol i greu adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. |
| 92 | Cefnogi'r cais i nodi tirwedd llechi'r Gogledd-orllewin fel Safle Treftadaeth y Byd. | Cafodd yr ymrwymiad hwn ei gwblhau ar ôl i Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO gynnwys Tirwedd Llechi'r Gogledd-orllewin ar y Rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd, ym mis Gorffennaf 2021. Roedd hyn yn benllanw blynyddoedd o waith gan Bartneriaeth Llechi aml-sefydliad o dan arweiniad Cyngor Gwynedd, ac mae Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn un o'r partneriaid craidd. |
| 93 | Datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd. | Mae datblygu Amgueddfa'r Gogledd yn rhan o raglen fwy o weithgareddau sy'n ymwneud ag ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis.<br><br>Yn 2021-2022, bu Amgueddfa Cymru yn ymgynghori â chymunedau lleol, yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac yn datblygu gweledigaeth ar gyfer yr Amgueddfa newydd. |
| 94 | Hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau llawr gwlad. | Yn 2021-22 fe wnaeth Chwaraeon Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, gefnogi amrywiaeth o brosiectau a oedd wedi'u hanelu at annog pawb i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru wedi arwain a chydlynu 'cyfnod peilot' y fenter Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol, sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol o ansawdd uchel y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Darparodd gymorth ariannol sylweddol hefyd i glybiau yr oedd Storm Eunice a Storm Franklin wedi effeithio arnynt ym mis Chwefror 2022. Bu'r gefnogaeth hon o gymorth i lawer o glybiau ar lawr gwlad, gyda chlybiau, offer ac eitemau eraill yn cael eu trwsio ar ôl y stormydd. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cefnogi'r Fenter Nofio am Ddim ac mae awdurdodau lleol yn darparu cymorth wedi'i dargedu i annog pobl ifanc a phobl dros 60 oed o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan yn y cynllun. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt** | | |
| 95 | Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu. | Dyblodd y gyllideb ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn 2021-22 i £250m. Bydd hyn yn cynyddu i £300m ar gyfer 2022-23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed hwn gyda dyraniadau dangosol y gyllideb ddrafft yn £330m yn 2023-24 a £325m yn 2024-25. Bydd y datganiad ystadegol cyntaf, sy'n adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r targed hwn, yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2022. |
| 96 | Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy. | Mae gwaith ar sefydlu Unnos wrthi'n cael ei ddatblygu. |
| 97 | Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. | Lansiwyd y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd* ym mis Tachwedd 2021 ar sail argymhellion y Grŵp Gweithredu arbenigol annibynnol ar Ddigartrefedd, gan adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen i atal digartrefedd a symud i ddull ailgartrefu cyflym.<br>Mae Panel Adolygu Arbenigol wedi cael ei sefydlu hefyd i helpu i fwrw ymlaen â'r diwygiadau tymor hwy i ddeddfwriaeth a pholisi. Mae ein hymgyrch gyfathrebu newydd ynghylch digartrefedd, a lansiwyd ym mis Mawrth, mewn partneriaeth â Shelter Cymru, yn annog pobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref i gael cymorth yn gynnar. |
| 98 | Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio. | Er mwyn canfod ffyrdd ychwanegol o wneud cartrefi'n fwy fforddiadwy i'r rheini sydd ar incwm lleol, mae'r sylfaen dystiolaeth, fel sail i hyn, yn cael ei chryfhau ar hyn o bryd.<br>Lansiwyd Cynllun Prydlesu Cymru ym mis Ionawr 2022. Dyma gynllun gwerth £30m dros 5 mlynedd, i wella mynediad at dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat, gan annog perchnogion eiddo i brydlesu eu heiddo i awdurdodau lleol yn gyfnewid am warant rhent a chyllid ychwanegol i wella cyflwr yr eiddo. Mae'r Cynllun yn cefnogi'r aelwydydd sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref gyda sicrwydd deiliadaeth tymor hwy, rhent wedi'i gyfyngu i gyfraddau Lwfans Tai Lleol a'r un lefel o gefnogaeth a dderbynnir mewn tai cymdeithasol. Mae pymtheg awdurdod lleol wedi ymuno â'r cynllun. |
| 99 | Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau. | Mae newidiadau i drothwyon ardrethi busnes a threthiant lleol wedi cael eu cyhoeddi i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi (a llety gwyliau tymor byr) yn gwneud cyfraniad teg i'r cymunedau y maent yn prynu ac yn gweithredu ynddynt.<br>Ym mis Chwefror 2022, daeth ymgynghoriad i ben ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Mae'r ymgynghoriad ar newidiadau posibl i gyfraddau uwch o Dreth Trafodiadau Tir wedi dod i ben hefyd. Mae ymgynghoriad arfaethedig y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â modelau perchnogaeth gymdeithasol, gan gynnwys cynigion i sefydlu tai cydweithredol o dan arweiniad y gymuned. Mae'r ymatebion i'r ymgyngoriadau hyn yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac mae opsiynau'n cael eu datblygu. |
| 100 | Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol. | Yn ystod 2021-22, roedd 64 o gleientiaid gweithredol yn dal i ymwneud â'r rhaglen gefnogaeth a gynigir i grwpiau Tai a arweinir gan y Gymuned drwy'r rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi. Mae rhaglen newydd o gefnogaeth ar gyfer Tai a arweinir gan y Gymuned yng Nghymru wedi cael ei datblygu. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 101 | Creu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren a all ddatblygu a chynnal cynhyrchu a phrosesu gwerth uchel i bren Cymru. | Fe wnaeth yr adolygiad manwl o goed a phren yn ystod haf 2021 nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer strategaeth i'r diwydiant pren a fydd yn cael ei chyhoeddi y flwyddyn nesaf, yn amodol ar ymgynghori. |
| 102 | Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol. | Cyhoeddwyd *Cynllun Cymru Sero Net* ym mis Tachwedd 2021, a oedd yn cynnwys pennod ar ddatgarboneiddio preswyl sy'n nodi'r strategaeth lefel uchel a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer 2021-2025. Cafodd Safon Ansawdd Datblygu newydd Cymru ei rhoi ar waith ym mis Hydref. Roedd yn pennu safonau ansawdd gofynnol ar gyfer tai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, a disgwylir i ddatblygwyr preifat adeiladu i'r un gofynion carbon isel erbyn 2025.<br><br>Lansiodd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ei hail rownd o gyllid yn hydref 2021, a daeth ceisiadau gwerth dros £60m i law am £50m o gyllid grant. Erbyn mis Mawrth, roedd y cyllid wedi cael ei dalu gan alluogi prosiectau presennol i gael eu rhoi ar waith ar raddfa fwy a rhai newydd i gael eu datblygu. Bydd £50m y flwyddyn ar gael ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf i gefnogi'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. |
| 103 | Ystyried ble y gellir dod â gwasanaethau a chontractau yn ôl yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy i mewn i sector cyhoeddus cryfach. | Mae astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal ar hyn o bryd i archwilio'r cyd-destun caffael yng Nghymru a darparu dull gweithredu 'glasbrint' sy'n cael ei argymell ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru, i arwain prosesau gwneud penderfyniadau wrth ystyried a ddylid darparu gwasanaethau'n fewnol. |
| 104 | Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol. | Ym mis Ebrill 2021, sefydlwyd pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd i gefnogi ac annog cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol. Mae'r Cyd-bwyllgorau hyn yn rhannu'r un ffiniau ag ardaloedd y bargeinion dinesig a thwf ac o fis Mehefin 2022 ymlaen byddant yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio defnydd tir yn strategol a llesiant economaidd. Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n sail i'w gwaith wedi cael ei roi ar waith. Mae gwaith yn parhau gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith yn barhaus a darparwyd £1m yn 2021/22 i gefnogi trefniadau cynllunio pontio rhanbarthol. |
| 105 | Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol. | Mae'r pandemig wedi cyflymu gweithio ar y cyd mewn rhai meysydd. Ceir enghreifftiau o rai trefniadau symlach, fel uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent. Ceisir barn ar hyn o bryd am y cyfleoedd i fanteisio ar yr hyblygrwydd i symleiddio trefniadau partneriaeth. |
| 106 | Gwneud 20mya yn derfyn cyflymder safonol mewn ardaloedd preswyl. | Mae rhaglen o ardaloedd preswyl yn profi cynlluniau ar gyfer gorfodi, monitro ansawdd aer, arolygon cerddwyr ac olrhain siwrneiau i ysgolion. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ym mis Medi 2021 a chyhoeddwyd ymateb y llywodraeth ym mis Mawrth 2022. Mae awdurdodau lleol wrthi'n cwblhau Mapiau Eithriadau 20 mya ar hyn o bryd ar gyfer y ffyrdd hynny a fydd yn parhau i fod yn 30 mya. |
| 107 | Gwahardd parcio ar y palmant, ble bynnag y bo modd. | Datblygodd Grŵp Tasglu Parcio ar Balmentydd Cymru ddull gweithredu i roi pwerau i awdurdodau lleol ynghylch parcio ar balmentydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Grŵp y Tasglu a Llywodraeth y DU gan fod hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol yn Senedd y DU. |

| | Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd |
|---|---|---|
| | **Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang** | |
| 108 | Sefydlu comisiwn sefydlog annibynnol i ystyried dyfodol cyfansoddiadol Cymru. | Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn 2021 gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Cafodd cyd-gadeiryddion y Comisiwn eu cadarnhau ym mis Hydref 2021 gyda naw o gomisiynwyr yn cael eu penodi ym mis Tachwedd i gyfrannu amrywiaeth o safbwyntiau o ystyried eu profiadau, eu cefndiroedd a'u cymunedau niferus. Disgwylir yr adroddiad dros dro erbyn diwedd 2022. |
| 109 | Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol – â'r un bresennol a chyflwyno cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith. | Sefydlwyd y Pwyllgor trawsbleidiol Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ym mis Hydref 2021 i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan Bwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd ac i wneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd. Pleidleisiodd y Senedd i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor ym mis Mehefin 2022, ac rydym wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth o fewn 12 i 18 mis i ddyddiad cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor. |
| 110 | Hyrwyddo a chefnogi gwaith y Comisiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Blaid Lafur y DU | Mae Gweinidogion yn parhau i hyrwyddo gwaith y Comisiwn ac annog dinasyddion a rhanddeiliaid yng Nghymru i ymwneud â'i waith. |
| 111 | Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru | Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Academi Heddwch i bennu cwmpas a graddfa'r gweithgarwch yn y dyfodol. |
| 112 | Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig. | Cyhoeddwyd y cynlluniau amlinellol ar gyfer diwygio'r dreth gyngor ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried y tymor hwn yn cynnwys ailbrisio, adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a gwerthuso gostyngiadau, diystyru, eithriadau a phremiymau – gyda dewisiadau ar gyfer diwygio mwy sylfaenol yn y tymor hwy. |
| 113 | Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. | Cyhoeddwyd yr egwyddorion a fyddai'n sail i ddiwygio etholiadol ym mis Gorffennaf 2021 a gwahoddwyd awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn cynlluniau peilot arloesol. Cynhaliodd pedwar awdurdod gynlluniau peilot ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw ym mis Mai 2022, a bydd y canfyddiadau'n pennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae gwaith maes, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Ymgysylltu a Chofrestru Etholiadol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ym mhob awdurdod lleol a grant trydydd sector, wedi sefydlu rhwydwaith creadigol i ymgysylltu'n well â dinasyddion, yn enwedig y rheini sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio ac i annog pobl i gofrestru i bleidleisio. |
| 114 | Rhoi rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol gwerth £65 miliwn ar waith. | Cyhoeddwyd Taith ym mis Mawrth 2021. Agorodd y cyfnod i wneud cais ar gyfer Llwybr 1 ar 11 Mawrth a daeth i ben ar 12 Mai 2022. Bydd Llwybr 2 yn agor yn hydref 2022. Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni cyfnewidiadau o fis Medi 2022 ymlaen, yn unol â'r bwriad.<br><br>Mae Bwrdd Cynghori wedi'i sefydlu ac mae Cadeirydd annibynnol wedi'i benodi. Dewiswyd yr enw "Taith" mewn cystadleuaeth gyhoeddus ym mis Rhagfyr 2021. Lansiwyd y brand newydd, gan gynnwys y wefan a'r logo, ym mis Chwefror 2022. |
| 115 | Ailfywiogi ein perthynas efeillio ledled yr UE drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc. | Mae'r gwaith hwn yn y cam cwmpasu, sy'n cynnwys cynllunio sut bydd ymgysylltu â'r cnewyllyn newydd o arweinwyr awdurdodau lleol yn digwydd o hydref 2022 ymlaen. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45043 ISBN digidol 978-1-80364-487-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg